COMMUNITY FOUNDATION



# NEWID BYWYDAU, TRAWSNEWID CYMUNEDAU

Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd

**Cynllun Strategol 2023 - 2028**


Inspires

# EIN STRATEGAETH

## DRWY WEITHIO GYDA'N GILYDD, GALL Y CLWB A'N CYMUNEDAU GYFLAWNI PETHAU GWYCH

**Wrth galon ein cenhadaeth mae'r gred bod clybiau pêl-droed yn gallu ysbrydoli gobaith, angerdd ac ymdeimlad o berthyn**

O sefydlu Clwb Pêl-droed Riverside yn 1899 i agor Parc Ninian yn 1910, calon y clwb erioed fu'r cymunedau sy'n cefnogi'r Adar Gleision.

Drwy weithio gyda'n gilydd, gall y Clwb a'n cymunedau gyflawni pethau gwych.

Sefydlwyd Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yn 2009, ac rydyn ni wedi dod ymhell o gnewyllyn bychan. Heddiw, rydyn ni'n amcangyfrif bod ein sefydliad yn cael gwerth £11 miliwn o effaith gymdeithasol, diolch i gefnogaeth anhygoel ein cymuned.

Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod bod llawer o waith i'w wneud o hyd, ac rydyn ni'n fwy penderfynol nag erioed o wneud gwahaniaeth ystyrlon.

Ein nod yw newid bywydau a thrawsnewid cymunedau drwy ddarparu rhwydwaith cefnogol sy'n annog twf, lles ac ymdeimlad o berthyn. I gyflawni'r nod hwn, mae angen i bawb sy'n dod i gysylltiad â ni ddeall ein cenhadaeth a'r hyn rydyn ni'n sefyll drosto.

Gyda'ch cefnogaeth chi, gallwn ni weithio tuag at greu dyfodol gwell i'n cymunedau.

Ymunwch â ni wrth i ni barhau ar y daith hon. Gyda'n gilydd, gallwn ni wneud gwahaniaeth sy'n para am oes.



# EIN CENHADAETH YW DEFNYDDIO YSBRYDOLIAETH CLWB PÊL-DROED DINAS CAERDYDD I NEWID BYWYDAU A THRAWSNEWID CYMUNEDAU



# EIN GWELEDIGAETH YW I'R BOBL YN EIN CYMUNEDAU GYFLAWNI EU LLAWN BOTENSIAL

# HATRIC O AMCANION



Byddwn ni'n harneisio pŵer pêl-droed, ac yn defnyddio asedau Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i feithrin perthyn, a chyflawni ein tair hamcan.

**01** Gwella Iechyd a Llesiant

**02** Cefnogi Dysgu a Sgiliau

**03** Creu Cymunedau Cryfach

# GWELLA IECHYD A LLESIANT



## Rydyn ni eisiau helpu pawb i fyw bywyd iachach a mwy egnïol, a gwella llesiant.

- Byddwn ni'n agor Stadiwm Dinas Caerdydd a Thŷ Chwaraeon Dinas Caerdydd fel ein canolfannau llesiant.
- Byddwn ni'n creu ymyriadau wedi'u targedu i helpu pobl i reoli eu pwysau ac i fyw bywydau iachach.
- Byddwn ni'n defnyddio ein llais a'n dylanwad i rannu negeseuon iechyd pwysig.
- Bydd ein Sgyrsiau Tîm yn dod â phobl at ei gilydd i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol a hybu ymdeimlad o berthyn.
- Byddwn ni'n sicrhau tegwch drwy gynnig rhaglenni pêl-droed i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

# CEFNOGI DYSGU A SGILIAU



**Rydyn ni'n benderfynol o wneud addysg a datblygu sgiliau yn hygyrch i bawb, a hynny wrth gael hwyl gyda phêl-droed.**

- Byddwn ni'n creu adnoddau a heriau addysgol ar thema pêl-droed er mwyn mynd â'r dysgu i'r lefel nesaf.
- Byddwn ni'n helpu pobl i ddatblygu sgiliau bywyd newydd a fydd yn eu paratoi ar gyfer llwyddiant.
- Byddwn ni'n helpu pobl ifanc i ennill cymwysterau a phrofiad yn y diwydiant i'w helpu i ddatblygu gyrfa ym maes pêl-droed.
- Byddwn ni'n creu cyfleoedd dysgu i deuluoedd ac oedolion, fel bod pobl o bob oed yn gallu datgloi eu potensial gyda ni.

# CREU CYMUNEDAU CRYFACH




**Rydyn ni'n credu ym mhŵer cysylltiad, ac rydyn ni wedi ymrwymo i greu cyfleoedd i bawb berthyn.**

- Byddwn ni'n mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd drwy sefydlu hybiau cymunedol.
- Byddwn ni'n darparu cyfleoedd pêl-droed cymunedol diogel a chynhwysol sy'n croesawu pawb, beth bynnag fo'u cefndir a'u gallu.
- Byddwn ni'n defnyddio pêl-droed fel grym er lles, gan ddod â phobl at ei gilydd i ddathlu amrywiaeth a herio gwahaniaethu.
- Byddwn ni'n denu cyllid i gefnogi mannau lle gall pobl ddod at ei gilydd, cysylltu a ffynnu.
- Rydyn ni wedi ymrwymo i fabwysiadu arferion cynaliadwy a lleihau ein hôl troed carbon i'n helpu i greu byd gwell i bawb.

# EIN HAMCANION



## Cyrhaeddiad

Cynyddu ein cyrhaeddiad yn ein cymunedau

## Effaith

Cynyddu ein heffaith yn ein cymunedau

## Cynaliadwyedd

Creu sefydliad cryf a chynaliadwy

# EIN CYNLLUN



## Gwasanaethau

Byddwn ni'n ymateb i anghenion ein cymunedau er mwyn gwneud gwahaniaeth mewn ffordd sy'n unigryw i ni.

## Pobl

Byddwn ni'n creu gweithlu medrus, amrywiol, angerddol ac wedi'i rymuso sy'n adlewyrchu ein cymunedau.

## Diogelu

Byddwn ni'n cynnig profiadau cadarnhaol ac yn creu amgylcheddau cynhwysol a chroesawgar.

## Marchnata a Chyfathrebu

Byddwn ni'n datblygu ein henw da fel y prif sefydliad chwaraeon ar gyfer datblygiad cymdeithasol yng Nghymru.

## Cynhyrchu Incwm a Chyllid

Byddwn ni'n sefydlu portffolio incwm amrywiol, gan wneud y gorau ohono i sicrhau effaith gymdeithasol.

## Llywodraethu a Sicrwydd

Byddwn ni'n datblygu sefydliad sy'n cael ei lywodraethu'n dda lle mae arweinyddiaeth, diwylliant a fframwaith strategaeth, rheoli risg a rheolaethau yn cyd-fynd â'n pwrpas.

# EIN GWERTHOEDD A'R HYN RYDYN NI'N SEFYLL DROSTO

1. **Angerdd**
   Rydyn ni'n angerddol dros ysbrydoli eraill

2. **Parch**
   Rydyn ni'n dangos parch a thosturi

3. **Cynhwysiant**
   Rydyn ni'n hyrwyddo cynhwysiant, yn dathlu amrywiaeth ac yn herio gwahaniaethu

4. **Cydweithio**
   Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i greu newid

5. **Arloesi**
   Rydyn ni'n dychmygu beth sy'n bosib ac yn ymdrechu i wella

# BYDDEN NI WRTH EIN BODDAU PETAECH CHI'N YMUNO Â'N TÎM

COMMUNITY FOUNDATION

## Cyfeiriwch atom ni

Ydych chi'n adnabod rhywun a allai elwa o'n gwasanaethau? Gadewch iddyn nhw wybod amdanom ni.

## Dod yn bartner cyflenwi

Allai eich sefydliad weithio mewn partneriaeth â ni i ddarparu rhaglen sy'n newid bywydau? Cysylltwch â ni.

## Rhannwch ein stori

Allwch chi rannu ein stori gyda'ch rhwydwaith?
cardiffcityfcfoundation.org.uk

## Cefnogi ein hamcanion

Hoffech chi roi arian? Neu godi arian i ni? Byddai ein tîm wrth eu boddau'n clywed gennych chi.

## Cysylltu â ni


**Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd**
Tŷ Chwaraeon Dinas Caerdydd
Clos Parc Morgannwg
Caerdydd
CF11 8AW

02920 231 212
info@cardiffcityfc.org.uk


## Dilynwch ni

- X: CCFC_Foundation
- Instagram: ccfc_foundation
- Facebook: CardiffCityFCFoundation
- LinkedIn: Cardiff City FC Community Foundation